

## Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru: Cadw ac anfon gwybodaeth yn gyfrinachol

### Rhagymadrodd

Mae cadw cofnodion eglur a chywir yn rhan allweddol o waith gofalwr maeth. Mae storio'r wybodaeth honno'n ddiogel ac yn sicr yn hanfodol. Y dyddiau hyn, fe gaiff llawer o wybodaeth ei storio a'i hanfon yn electronig, mae'n gyflym ac yn gyfleus, ond mae yna wendidau. Mae'r daflen ffeithiau hon yn eich helpu i ddeall eich cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw ac anfon gwybodaeth gyfrinachol.

### Deddfwriaeth a safonau Cymru

Mae'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Maethu](#) (NMS) yn amodi bod yn rhaid i ofalwyr storio gwybodaeth am blant neu bobl ifanc yn ddiogel, a deall pa wybodaeth y disgwylir iddynt ei chadw a pha wybodaeth sydd angen ei throsglwyddo i'r gwasanaeth maethu. Hefyd, mae'n bwysig eich bod yn deall pa wybodaeth y disgwylir ichi ei chadw a'r hyn sydd angen ei dychwelyd i'r gwasanaeth maethu. Mae [Deddf Diogelu Data 1998](#) yn rheoli'r defnydd o wybodaeth bersonol a diogelu data sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn. Mae'n gweddu i chi fel gofalwr maeth o ran yr wybodaeth a gedwir am blant a phobl ifanc yn eich gofal a'r wybodaeth amdanoch chi a gedwir gan eich gwasanaeth maethu.

Rheolir diogelu data gan wyth egwyddor graidd. Mae'n bwysig eich bod yn deall beth maent yn ei olygu i chi fel gofalwr maeth. Mae'r rhain yn gofyn am i wybodaeth:

- cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon
- ei chael a'i defnyddio'n gyfreithlon ac er dibenion penodol
- bod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol
- bod yn gywir
- peidio â'i chadw'n hwy nag sy'n angenrheidiol
- cael ei phrosesu yn unol â hawliau unigolyn
- ei chadw'n ddiogel
- peidio â'i throsglwyddo (hynny yw, wedi'i hanfon gennych chi) heb ddiogelwch digonol.

Mae hyn yn gweddu i bob gwybodaeth, p'un a ydyw ar bapur neu wedi'i storio'n electronig ar eich cyfrifiadur. Mae egwyddorion storio diogel yr un yn y bôn.

Gall hyn ymddangos yn gymhleth. Ymglyfarwyddwch eich hun â pholisïau a gweithdrefnau'ch gwasanaeth maethu, a ddylai fod yn cydymffurfio â diogelu data. Hefyd, edrychwch ar bolisi ac arferion cofnodi eich gwasanaeth, sy'n eich tywys ar yr hyn rydych yn ei gofnodi am y plant a'r bobl ifanc yn eich gofal a sut rydych yn ei gofnodi. Os oes gennych amheuan, gofynnwch i'ch gwasanaeth maethu am eglurhad.

Mae'ch cofnodion yn agored i weithiwr cymdeithasol y plentyn, eich gwasanaeth maethu ac unrhyw weithiwr proffesiynol awdurdodedig arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw achos llys ynglŷn â'r plentyn neu'r person ifanc.

## **Diogelu data a maethu**

Storiwch bob cofnod ysgrifenedig mewn lle diogel. Dylai hyn fod yn gabinet â chlo neu rywbeth cyffelyb, lle ond y chi sy'n gallu mynd ato. Mae hyn yn cynnwys eich log dyddiol yn ogystal â chofnodion y plentyn. Mae'n rhaid i bob cofnod a gedwir yn electronig hefyd fod yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir ar eich cyfrifiadur, e-byst, eich tabled a'ch ffôn symudol.

Sicrhewch eich bod yn cymryd camau diogelwch sylfaenol ar eich dyfeisiadau:

- Dylai pob dyfais gael ei ddiogelu gan gyfrinair.
- Diogelu'ch dogfennau a'ch cyfrif e-bost â chyfrinair gwahanol.
- Nid yw'r cyfrinair yn rhywbeth amlwg ac/neu'n hysbys i'ch teulu.
- Gosodwch feddalwedd diogelu gwrthfeirysau.
- Gosodwch ddulliau rheoli gan rieni.
- Caewch ffenestri'ch porwr a'ch e-bost ar ddiwedd pob sesiwn.
- Peidiwch â defnyddio cyfrifiaduron cyhoeddus.
- Peidiwch â defnyddio dyfais gludadwy os gall rywun edrych dros eich ysgwydd.

Mae rhai gwasanaethau maethu'n cyflwyno system gofnodi ddiogel gyda phe cyn amgryptio wedi'i raglwytho, y gellir ei gysylltu â phrif system storio gwybodaeth y gwasanaeth. Os felly, dilynwch eu canllawiau. Cymerwch gamau rhagofalus sylfaenol gyda'r dyfeisiadau eu hunain. Mae gliniaduron, ffonau symudol a thabledi yn hawdd eu colli. Peidiwch â'u gadael ar eu pen eu hunain mewn ceir neu fannau cyhoeddus. Fe'ch cynghorir yn gryf i beidio â chadw unrhyw wybodaeth gyfrinachol ar eich ffôn symudol.

Peidiwch â storio gwybodaeth gyfrinachol ar gof bach USB, cerdyn cofio nac ar ddyfeisiadau storio cludadwy eraill.

## **Rhannu Gwybodaeth**

Datgelwch wybodaeth, p'un a ydyw wedi'i storio'n electronig neu ar bapur, dim ond i'r rheiny sydd angen cael gwybod, megis meddyg sydd angen hanes meddygol y gorffennol. Hyd yn oed wedyn, datgelwch ddim ond yr wybodaeth fwyaf sylfaenol sydd ei hangen yn y cyfryw amgylchiadau, ac wedyn ymgynghorwch â'ch gwasanaeth maethu neu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Peidiwch ag anfon adroddiadau a gwybodaeth drwy e-bost oni bai bod y dogfennau a'r llythyr ei hun wedi'u diogelu gan gyfrinair neu, yn well fyth, wedi'u hamgryptio. Gall eich gwasanaeth maethu ddarparu meddalwedd amgryptio er y diben hwn. Mae'n hawdd gwneud camgymeriad ar hyn. Meddyliwch am yr hyn rydych yn ei gynnwys mewn e-byst at eich gwasanaeth maethu ac at weithiwr cymdeithasol y plentyn. Peidiwch â defnyddio enwau llawn plant a phobl ifanc, hyd yn oed mewn e-bost syml.

Wedi i blentyn neu berson ifanc adael eich gofal, dychwelwch yr holl wybodaeth i'ch gwasanaeth maethu.

## **Cyrchu Gwybodaeth**

Mae gennych hawl i weld gwybodaeth amdanoch a gedwir gan eich gwasanaeth maethu.

Yn yr un modd, fe all plant a phobl ifanc yn eich gofal gyrchu'u ffeiliau a gedwir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae yna eithriadau, a'r prif rai yw'r wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti a phan fo gweithdrefnau'n cael eu creu gan y rheoliadau a/neu gan gyrff eraill. Er enghraifft, ni allwch weld adroddiadau'r dyfarnwr sy'n ffurfio rhan o'ch asesiad maethu.

Mae'n rhaid i bob sefydliad gael polisi a gweithdrefn ar gyfer cyrchu cofnodion. Nodwch y cewch ond gweld eich cofnodion eich hun. Ni chaiff plant a phobl ifanc weld dim sy'n ymwneud ag aelodau eraill o'r teulu heb ganiatâd penodol.

## **Sut y gall y Rhwydwaith Maethu helpu**

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

### **Cyngor**

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

[Fosterlinewales@fostering.net](mailto:Fosterlinewales@fostering.net)

Rhwydwaith Maethu Cymru,  
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,  
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

### **Cefnogaeth ac adnoddau**

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofaluwr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth. [thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

Mae'r erthygl hon gan Y Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor ar reoli diogelwch a chyfrineiriau: [thefosteringnetwork.org.uk/blogs/kieran-mcquire/using-password-manager](http://thefosteringnetwork.org.uk/blogs/kieran-mcquire/using-password-manager)

### **Cyhoeddiadau**

Gofalu diogelach: ymagweddiad newydd

[thefosteringnetwork.org.uk/training-and-events/in-house-training/safer-caring-new-approach](http://thefosteringnetwork.org.uk/training-and-events/in-house-training/safer-caring-new-approach)

Maethu mewn byd digidol

[thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/looking-after-fostered-child/fostering-in-digital-world](http://thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/looking-after-fostered-child/fostering-in-digital-world)

Cadw cofnodion

[thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/being-foster-carer/record-keeping](http://thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/being-foster-carer/record-keeping)

### **Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori**

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofaluwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu

chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn [sarah.mobedji@fostering.net](mailto:sarah.mobedji@fostering.net).

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

## Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:  
Rhwydwaith Maethu Cymru,  
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,  
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: [wales@fostering.net](mailto:wales@fostering.net)

Gwefan: [thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017